# Celf a dylunio

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3










**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Defnyddio'r deunyddiau hyn** **4**

**Adran 1**

Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn celf a dylunio 7

**Adran 2**

Disgwyliadau a dilyniant mewn celf a dylunio 31

**Adran 3**

Defnyddio'r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2 35

Bryn – nodweddion o Lefelau 3 a 4 37

Mark – nodweddion o Lefelau 4 a 5 42

Siân – nodweddion o Lefel 5 46

**Adran 4**

Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 51

Aled – Lefel 5 53

Carys – Lefel 6 60

June – Lefel 7 67

**Cydnabyddiaethau** **75**

# Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwyr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adrannau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddaru pan fo angen.

Pan fydd barn yn cael ei llunio ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1. Deilliannau anstatudol yw'r rhain, a bwriedir darparu arweiniad ar gyfer eu defnyddio.

# Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r llyfryn hwn wedi ei rannu'n bedair adran.

| | |
|---|---|
| Adran 1 | sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn celf a dylunio. |
| Adran 2 | sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant mewn celf a dylunio. |
| Adran 3 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 2. Diben y rhain yw dangos nodweddion y disgrifiadau lefel. |
| Adran 4 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol. |

Gallwch gyfeirio at y llyfryn hwn pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y Gorchymyn celf a dylunio diwygiedig
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar daflen gyda'r llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae CD-ROM wedi ei ddarparu gyda'r llyfryn hwn hefyd. Mae'n cynnwys fersiwn PDF o *Celf a dylunio yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a'r canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi'r cwricwlwm diwygiedig a'i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi'r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy'n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- canllawiau penodol ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith, ac addysg grefyddol.

# *Adran* 1


## Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn celf a dylunio

Mae celf a dylunio yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru yn canolbwyntio ar y dysgwr ac ar sgiliau. Gwnaed newidiadau i'r cynnwys a'r cyflwyniad er mwyn eich cynorthwyo i gynllunio profiadau perthnasol ac ysgogol ar gyfer dysgwyr.

Diben yr adran hon yw eich helpu i gael dealltwriaeth o'r Gorchymyn diwygiedig ar gyfer celf a dylunio ac i gynllunio ar gyfer eich dysgu ac addysgu. Dylech chi gynllunio i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu Sgiliau trwy amrywiaeth o gyd-destunau a nodir o dan y pennawd Ystod. Dylech ddefnyddio Sgiliau ac Ystod fel fframwaith hyblyg y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu gweithgareddau a fydd yn berthnasol ac yn ysgogol i ddysgwyr.




*Ffig. 1 – Gwaith wedi ei lywio gan Gaudi yn dangos tystiolaeth o Ddeall, Ymchwilio a Gwneud*




## Datblygu ffocws ar Sgiliau

Dylai eich cynllun gwaith sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu, ymarfer a defnyddio'r tri sgìl – **Deall**, **Ymchwilio** a **Gwneud**. Mae cydblethu'r tri sgìl hyn, sydd yr un mor bwysig â'i gilydd, yn hanfodol i ddysgu llwyddiannus mewn celf a dylunio.



Er enghraifft, yn yr uned amlgyfrwng ym mhroffil Mark (Cyfnod Allweddol 2) mae e'n ymchwilio i effeithiau cyfuno gwahanol gyfryngau trwy weithgaredd ymarferol ac mae e'n dangos ei ddealltwriaeth o ddulliau artist amlgyfrwng trwy gynhyrchu ymateb personol.




Yn yr uned coed ym mhroffil June (Cyfnod Allweddol 3) mae hi'n dangos ei bod hi'n 'deall' trwy gyfathrebu ysgrifenedig a thrwy 'wneud'. Mae ei hymchwiliadau wedi'u cysylltu â'i gilydd ym mhob rhan o'i phroffil, ac mae ei dealltwriaeth a'i hymchwilio yn llywio ei gwneud.

**Cwestiynau defnyddiol i arwain eich cynllunio**


- Ydw i wedi cynllunio dilyniannau o weithgareddau yn y prosiect sy'n datblygu sgiliau?
- Pa sgìl/sgiliau celf a dylunio o'r rhaglenni astudio y mae'r prosiect hwn yn eu datblygu?
- Beth yw diben y prosiect hwn? Ydy'r prosiect hwn yn cyfnerthu, yn defnyddio neu'n ymestyn sgìl?
- Ydy'r prosiect yn rhoi cyfle i integreiddio sgiliau?

Dros y tudalennau a ganlyn, ymdrinnir â'r tair sgìl ar wahân er mwyn eich helpu i adnabod eu nodweddion.

## Deall




Ffig. 3 – Uned o waith wedi ei lywio gan Gelfyddyd Bop




*Ffig. 2 – Llyfr braslunio'n dangos dealltwriaeth o waith Gaudi*

Dylech chi ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth am waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill er mwyn cyfoethogi a chyfrannu at eu gwaith. Dylen nhw archwilio arferion gwaith amrywiol, gan ystyried eu diben a'u bwriadau, a gwerthuso, addasu a gwella eu gwaith eu hunain.

Dylech chi annog eich dysgwyr i ddangos eu dealltwriaeth trwy ganlyniadau gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd, ac i ddefnyddio sgiliau cyfathrebu ehangach.



Er enghraifft, ym mhroffil Siân (Cyfnod Allweddol 2) mae hi'n dangos ei dealltwriaeth o waith artist tirlun ac yn dehongli ei baentiad mewn cyfrwng gwahanol.



Ym mhroffil Carys (Cyfnod Allweddol 3) mae hi'n cymharu gwaith a gwahanol arddulliau tri artist mynegiadol. Mae hi'n edrych yn fanwl ar rannau bychain o'u paentiadau, gan ganolbwyntio ar eu dulliau yn hytrach na'r cynnwys. Mae hi'n dangos ei dealltwriaeth o waith eraill trwy gyfathrebu gweledol.

**Mae'r enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd i ddatblygu Deall yn cynnwys:**

- defnyddio ystod o eirfa i drafod y teimladau a'r emosiynau a gyflwynir mewn lluniau neu gerfluniau
- ystyried sut y gallai gwaith o ddiwylliannau anghyfarwydd ddylanwadu ar ddylunio patrwm ar gyfer eu prosiect tecstilau eu hunain
- gwerthuso a thrafod datblygiad gludwaith ar raddfa fawr yn seiliedig ar thema
- casglu gwybodaeth am artist o'r rhyngrwyd, y llyfrgell, orielau neu gyfweliadau a defnyddio'r wybodaeth i lywio eu gwaith eu hunain
- cynhyrchu cyflwyniad gan ddefnyddio TGCh ar ddylunio ffasiwn a dillad yn yr unfed ganrif ar hugain
- cynhyrchu erthygl am ddigwyddiad amlddiwylliannol a allai fod yn rhan o wefan neu bapur newydd yr ysgol.

## Ymchwilio



*Ffig. 4 – Ymchwiliadau i benwisgoedd*



*Ffig. 5 – Lluniau o blanhigion drwy arsylwi*

Dylech chi ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddewis a chofnodi o arsylwi, profiad, cof a dychymyg, ac i ymchwilio i'r byd naturiol, y byd gwneud a byd y dychymyg. Dylen nhw drefnu deunyddiau cyfeirio ac adnoddau, a chadw llyfr braslunio i ddatblygu syniadau a theimladau, archwilio themâu ac arbrofi â phrosesau a chyfryngau.



Er enghraifft, ym mhroffil Bryn (Cyfnod Allweddol 2) mae e'n cofnodi ac yn ymchwilio i ffurfiau planhigion ac yn datblygu ei luniau ei hun i greu printiau.




Ym mhroffil Aled (Cyfnod Allweddol 3) mae e'n gwneud lluniau arsylwadol o bysgod ac yn arbrofi â thechnegau ar gyfer creu gwead. Daw ei luniau i ddangos mwy o ddychymyg pan fyddan nhw'n cael eu datblygu'n brosesau a thechnegau eraill, e.e. inc a chreon, batic, print mono, gludwaith a cherfwedd gerdyn. Mae ei luniau o bysgod yn ffurfio deunydd cyfeirio ar gyfer datblygu ei thema. Mae ei ymchwiliad trylwyr o bysgod yn rhoi sylwedd i'r delweddau mae e'n eu cynhyrchu gan ddefnyddio'r gwahanol brosesau a thechnegau.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu Ymchwilio yn cynnwys:**

- creu portread yn seiliedig ar bethau fel planhigion blodeuol neu nodweddion adeilad
- casglu gwybodaeth ar gyfer prosiect dylunio am rywogaethau sydd mewn perygl o'r rhyngrwyd, y llyfrgell neu oriel leol
- cynhyrchu astudiaethau yn ystod neu ar ôl ymweliad â thraeth, coetir neu barc
- creu cyfres o astudiaethau mewn llyfr brasluniau yn seiliedig ar yr amgylchedd cynefin
- ymchwilio i ffurfiau organig a datblygu syniadau ar gyfer ffurfiau cerfluniol y corff (addurniadau)
- gwneud lluniau o ffurfiau naturiol o arsylwi a datblygu'r lluniau i greu dyluniad papur wal.







Gall llyfr braslunio ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ymchwiliol. Gall fod yn ddyddiadur gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd, yn llyfr nodiadau cyd-destunol neu'n llyfr ffynhonnell dylunio. Mae'n darparu cyfleoedd i ymholi ac archwilio syniadau. Gallai eich disgyblion ystyried eu llyfrau braslunio fel llyfr gwaith personol i'w ddefnyddio o ddydd i ddydd sy'n rhoi syniadau iddyn nhw a mannau cychwyn ar gyfer datblygiadau pellach.

**Gallai llyfr braslunio gynnwys:**

- lluniau o arsylwi uniongyrchol
- amrywiaeth o nodiadau ysgrifenedig, lluniau ac adnoddau gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd a gasglwyd
- archwiliadau ac ymchwiliadau i nodweddion gwahanol ddefnyddiau a phrosesau
- casgliad o syniadau fel mannau cychwyn ar gyfer prosiectau
- cyfres o dudalennau cysylltiedig sy'n olrhain datblygiad syniad o ran addasiadau a gwelliannau.

## Gwneud


Dylech chi ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio, arbrofi a defnyddio iaith weledol, gyffyrddol a synhwyraidd o ran celf, crefft a dylunio, ac i wneud delweddau ac arteffactau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau i wireddu eu syniadau, mynegi eu teimladau a chyfleu ystyron.



*Ffig. 6 – Darn o waith ceramig sy'n seiliedig ar gelf Affricanaidd*



*Ffig. 7 – Gludwaith amlgyfrwng*



Er enghraifft, ym mhroffil Siân (Cyfnod Allweddol 2) mae hi'n arbrofi'n ymarferol ac yn greadigol gydag amrywiaeth o ddulliau, defnyddiau, offer a thechnegau sy'n cynnwys lluniau pensil, gweithio gyda phastelau, peintio ar sidan, TGCh a gwehyddu. Mae ganddi hi wybodaeth eang am nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd. Mae'r llinell fynegiannol y mae hi'n ei defnyddio yn ei lluniau pastel o flodau'n dangos ei gallu i addasu a gwella'r gwaith.



Ym mhroffil June (Cyfnod Allweddol 3) mae hi'n arbrofi ag amrywiaeth o ddefnyddiau a thechnegau i ddatblygu ei hunanbortread. Mae'r technegau'n amrywio o lun pensil, gweithio gyda gwifrau a pheintio i ddelweddau a gynhyrchwyd ar gyfrifiadur.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu Gwneud yn cynnwys:**

- creu dyluniad â chymorth cyfrifiadur i gynhyrchu delwedd sy'n cyfleu'r teimlad o hapusrwydd
- defnyddio ystod o gyfryngau i wneud portread dau neu dri dimensiwn yn seiliedig ar gerdd neu stori
- arbrofi â gwahanol gyfryngau wrth archwilio prosiect ynglŷn â symudiad
- defnyddio defnyddiau o'r amgylchedd naturiol i greu canlyniadau dau neu dri dimensiwn
- cynhyrchu darn o gerflunwaith sy'n benodol i safle ar gyfer gardd amlsynhwyraidd
- cynhyrchu murlun ar gyfer cyntedd yr ysgol.

## Gweithredu'r Ystod

Mae adran newydd â'r teitl Ystod wedi'i chyflwyno i Orchymyn y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer celf a dylunio. Mae'r adran Ystod yn cynnwys y cyfleoedd a'r cyd-destunau a ddylai fod yn sail i ddatblygu a chyfnerthu'r sgiliau Deall,Ymchwilio a Gwneud.

Dyma rai enghreifftiau o sut y gallwch chi ddarparu cyfleoedd a chyd-destunau i ddatblygu a chyfnerthu'r sgiliau.

**Deall**

Ystod – Dylai dysgwyr gael eu hysgogi a'u hysbrydoli, pan fo hynny'n briodol, gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill. Gall ysbrydoliaeth ddod o gelf, crefft a dylunio lleol ac o Gymru yn ogystal â delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes. Dylen nhw gael eu hannog i ddethol a chyfeirio at nifer o ffynonellau fel llyfrau, fideos, adnoddau â sail ddigidol, orielau a'r rhyngrwyd.



Er enghraifft, mae proffil Bryn (Cyfnod Allweddol 2) yn cynnwys gwaith a ysgogir ac a ysbrydolir gan ddefnydd artist arall o linellau du trwchus.


Picasso – Out of the Blue!


Mae proffil June (Cyfnod Allweddol 3) yn cynnwys gwaith sy'n defnyddio'r rhyngrwyd fel ffynhonnell i gael gwybodaeth a delweddau er mwyn creu a dylunio erthygl papur newydd ddychmygol ynglŷn â Picasso.

**Ymchwilio**

Ystod – Dylai dysgwyr ymchwilio i briodweddau defnyddiau a phrosesau, yn ogystal â phethau ac amgylcheddau naturiol, gwneud a dychmygol, a thrwy ddethol a chyfeirio at unrhyw nifer o ffynonellau fel llyfrau, fideos, adnoddau â sail ddigidol, orielau a'r rhyngrwyd.



Er enghraifft, mae proffil Siân (Cyfnod Allweddol 2) yn cynnwys gwaith sy'n ymchwilio i'r amgylchedd naturiol ac sy'n ei ddehongli mewn ffordd ddychmygol trwy waith tecstilau.




Ym mhroffil Aled (Cyfnod Allweddol 3) mae e'n casglu, yn aildrefnu ac yn trefnu delweddau o gylchgronau i gynhyrchu delwedd swrrealaidd.

**Gwneud**

Ystod – Dylai dysgwyr ddylunio a gwneud pethau, arteffactau a delweddau gyda dychymyg a mynegiant gan ddefnyddio amrywiaeth o offer, cyfarpar, defnyddiau a phrosesau yn ddethol. Dylen nhw weithio fel unigolion neu aelodau o grŵp a gweithio y tu allan i'r ystafell gelf a dylunio pan fo hynny'n briodol.



Er enghraifft, ym mhroffil Siân (Cyfnod Allweddol 2) mae hi'n cofnodi ei chynefin o arsylwi uniongyrchol.



Mae proffil June yn cynnwys gwaith ffotograffig a wnaed y tu allan i'r ystafell gelf a dylunio.

## Celf a dylunio a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei datblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; ac o'r dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Mewn celf a dylunio, dylech chi gynllunio i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm.


Defnyddiwyd eiconau yn y Gorchymyn celf a dylunio er mwyn nodi gofynion pendant ar gyfer datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm ac i amlygu cyfleoedd yn yr adran Ystod. Byddwch chi'n adnabod cyfleoedd pellach i ddatblygu'r sgiliau hyn a dysgu ar draws y cwricwlwm pan fyddwch chi'n cynllunio eich dysgu ac addysgu mewn celf a dylunio.

### Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy brosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

*Ffig. 8 – Lluniadau'n dangos datblygiad syniadau*






*Ffig. 9 – Syniadau ar gyfer ardal yn yr awyr agored*

Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn archwilio ystod o wybodaeth ac adnoddau ac yn arbrofi â'r wybodaeth a'r adnoddau hynny er mwyn cynllunio a datblygu eu gweithgareddau creadigol a myfyrio yn eu cylch. Byddan nhw'n herio tybiaethau, yn edrych ar bethau mewn ffordd newydd ac yn hybu agwedd agored at syniadau newydd. Byddan nhw'n datblygu'r gallu i adnabod tebygrwydd neu wahaniaethau a chreu cysylltiadau annisgwyl, adeiladu ar syniadau i greu syniadau gwell, a manteisio ar yr annisgwyl.

Gall celf a dylunio ddarparu cyd-destun effeithiol ar gyfer datblygu meddwl, yn enwedig yn y sgìl Ymchwilio. Mewn celf a dylunio, gellir diffinio sgiliau meddwl fel patrymau o feddwl sy'n helpu dysgwyr i fynd y tu hwnt i gofio gwybodaeth yn unig ac sy'n eu galluogi i archwilio a gwneud synnwyr o'u byd, i resymu a datrys problemau, yn ogystal â chynllunio, creu, datblygu a gwerthuso eu syniadau.



Er enghraifft, ym mhroffil Mark (Cyfnod Allweddol 2) mae e'n cynhyrchu cyfansoddiad cyfansawdd cymhleth trwy ddefnyddio'r annisgwyl, a nodi tebygrwydd a chysylltiadau gweledol annhebygol.



Ym mhroffil Carys (Cyfnod Allweddol 3) mae hi'n casglu gwybodaeth berthnasol am gelfyddyd bop ac yn cynhyrchu, datblygu a chyfuno amrywiaeth o syniadau llawn dychymyg gan ddefnyddio cyfuniad o luniau ac anodiadau. Mae hi'n awgrymu ystod o ddewisiadau trwy ymarfer mapio'r meddwl ac yn gwerthuso ei dewisiadau er mwyn symud ymlaen. Mae hi'n nodi nodweddion gwaith Andy Warhol trwy wneud cymariaethau syml sy'n cyfrannu at ei gwaith gwneud. Mae hi'n cyfuno'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu dyluniad esgid tri dimensiwn mewn un gweithgaredd â fâs addurnedig dri dimensiwn mewn gweithgaredd arall.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu meddwl yn cynnwys:**

- gofyn cwestiynau i gyfnerthu eu dealltwriaeth o broses benodol, e.e. yn ystod neu ar ôl arddangosiad gan yr athro/athrawes o brintio sgrin (**cynllunio**)
- defnyddio gwybodaeth flaenorol a gafwyd yn ystod prosiect ar liwiau wrth wneud prosiect tirlun (**cynllunio**)
- fel aelodau o grŵp, cynllunio eu dull ar gyfer dylunio gardd yr ysgol (**cynllunio**)
- casglu gwybodaeth i baratoi ar gyfer prosiect ar thema benodol, e.e. cyfeillgarwch (**cynllunio**)
- datblygu amrywiaeth o syniadau llawn dychymyg mewn llyfr braslunio (**datblygu**)
- ymchwilio i nodweddion gwahanol gyfryngau a gwneud defnydd o gamgymeriadau a chanlyniadau annisgwyl (**datblygu**)
- nodi a disgrifio tebygrwydd rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill (**datblygu**)
- defnyddio anodiadau ar ddalenni dylunio i gefnogi lluniau a diagramau sy'n dangos datblygu syniadau (**datblygu**)
- gwerthuso darn o waith celf yn erbyn y bwriadau gwreiddiol (**myfyrio**).

## Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.




Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfathrebu ehangach i fynegi'u syniadau a'u hemosiynau. Bydd eu hymateb i waith pobl eraill yn llywio'u gwaith eu hunain.

*Ffig. 10 – Cyfuniad o gyfathrebu gweledol ac ysgrifenedig*




*Ffig. 11 – Delwedd wedi ei chynhyrchu o ffurfiau llythrennau*

Dylech chi roi cyfleoedd i ddysgwyr siarad am eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill a'u hannog i ddefnyddio geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â chelf a dylunio. Byddan nhw hefyd yn datblygu eu sgiliau gwrando pan fyddwch chi'n esbonio ac yn cyflwyno dulliau gweithio neu brosesau. Bydd eu sgiliau darllen yn datblygu os rhoddir mynediad iddyn nhw i adnoddau sy'n gysylltiedig â'u hymchwiliadau. Dylid eu hannog i drefnu eu syniadau'n glir ac yn effeithiol mewn amryw o ffurfiau a allai fod yn gyfuniad o'r gweledol a'r ysgrifenedig.



Er enghraifft, ym mhroffil Mark (Cyfnod Allweddol 2) mae e'n gallu gwneud cymariaethau rhwng ei waith ei hun a gwaith artist amlgyfrwng, ac mae e'n cyfleu ei ddealltwriaeth o'i ddulliau trwy sgiliau cyfathrebu gweledol ac anodiadau ysgrifenedig syml.



Ym mhroffil June (Cyfnod Allweddol 3) mae hi'n cyfleu ei dealltwriaeth o waith artistiaid eraill trwy gyfathrebu ysgrifenedig ac mae hi'n datblygu sgiliau cyfathrebu ehangach trwy waith ymarferol.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu cyfathrebu yn cynnwys:**

- mynegi barn trwy siarad ac ysgrifennu am eu gwaith celf eu hunain a gwaith celf pobl eraill, gan gynnwys eu cyfoedion, gan ddefnyddio geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â chelf a dylunio (**llafaredd/ysgrifennu**)
- anodi dalenni dylunio, e.e. esbonio'r rhesymeg sydd wrth wraidd dyluniad clawr ar gyfer llyfr stori i blant (**ysgrifennu**)
- cyfleu syniadau ac emosiynau trwy gelf a dylunio, e.e. defnyddio lliwiau i gyfleu emosiynau mewn portread (**cyfathrebu ehangach**).

## Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn defnyddio'u sgiliau TGCh i ymchwilio i syniadau creadigol, eu trin, eu datblygu neu'u gwireddu. Byddan nhw'n dewis meddalwedd ac offer priodol i'w cynorthwyo i ddylunio a gwneud. Byddan nhw'n ystyried TGCh yn gyfrwng yn ei rhinwedd ei hun neu'n ei hystyried yn rhan o ganlyniad amlgyfrwng, wedi'i hintegreiddio â defnyddiau a phrosesau eraill.


Dylai dysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o nodweddion TGCh fel cyfrwng a'i ddefnyddio'n ddetholus. Dylen nhw ei ystyried yn yr un modd ag y bydden nhw'n ystyried unrhyw gyfrwng arall a'i ddefnyddio dim ond pan fydd hynny'n briodol i'r dasg.




*Ffig. 12 – Defnyddio camera digidol i gofnodi gwaith gyda defnyddiau naturiol*




*Ffig. 13 – Delweddau wedi eu trin â TGCh*



Er enghraifft, ym mhroffil Mark (Cyfnod Allweddol 2) mae e'n dangos ei fod e'n gallu rheoli amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys TGCh ac mae e'n ystyried hwn fel un cyfrwng o blith nifer sydd ar gael iddo fe. Mae e'n dewis TGCh fel cyfrwng am ei fod yn briodol i'r dasg.



Ym mhroffil Aled (Cyfnod Allweddol 3) mae e'n rheoli amrywiaeth o dechnegau a phrosesau ac mae e'n dewis TGCh fel cyfrwng priodol i gynhyrchu patrwm ailadroddus o bysgod.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu TGCh yn cynnwys:**


- defnyddio cyfarpar TGCh i greu a chyfleu eu syniadau, e.e. sganio eu lluniau a'u syniadau gwreiddiol ar gyfer penwisg carnifal a mewnosod testun (**creu**)
- defnyddio camera digidol i gofnodi gwaith a wneir yn yr awyr agored gyda defnyddiau naturiol (**creu**)
- sganio eu paentiadau gwreiddiol a chreu delwedd wedi ei haddasu (**creu**)
- cyflwyno eu hymchwiliadau a'u hadnoddau ar ffurf PowerPoint, e.e. prosiect sy'n seiliedig ar eu tref neu bentref (**cyflwyno**)
- cyflwyno a chynhyrchu erthygl am ddigwyddiad diwylliannol Cymreig a allai fod yn rhan o wefan neu bapur newydd yr ysgol (**cyflwyno**)
- defnyddio camera digidol i gofnodi a chyflwyno camau amrywiol gwaith sydd ar y gweill (**cyflwyno**)
- casglu a darganfod gwybodaeth am artist o'r rhyngrwyd (**darganfod**)
- defnyddio TGCh fel cyfrwng i ddatblygu prosiect dylunio graffeg, e.e. dylunio logo ar gyfer cwmni dillad chwaraeon i'w osod ar eu holl nwyddau (**datblygu**).

## Datblygu rhif


Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, **a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn defnyddio sgiliau rhif megis gwaith mesur, gwaith amcangyfrif, graddfa, cyfrannedd, patrwm a siapiau i ddatblygu, llywio a darparu adnoddau ar gyfer eu gweithgareddau creadigol.

Gallwch chi ddefnyddio rhai geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â rhif yng nghyd-destun celf a dylunio. Byddai gwneud arteffact tri dimensiwn bob amser yn cynnwys mesur, creu siapiau a ffurfiau, ystyried graddfa a chyfrannedd.



*Ffig. 14 – Llun yn darlunio mesuriadau a chyfraneddau*



*Ffig. 15 – Grŵp o ddelweddau'n cynnwys patrwm ailadroddus a chyfrannedd*

| | |
|---|---|
| **Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu rhif yn cynnwys:** | • defnyddio gwybodaeth fathemategol wrth ddylunio patrymau ailadroddus a chymesur i'w defnyddio ar glawr gwerslyfr mathemategol (**defnyddio gwybodaeth fathemategol**)<br>• cynhyrchu gwaith sy'n creu'r argraff o ofod gan ddefnyddio deddfau persbectif, e.e. llun arsylwadol o goridor yr ysgol (**defnyddio gwybodaeth fathemategol**)<br>• ymgymryd ag ymchwiliadau haniaethol i agweddau esthetig ar gyfrannedd, e.e. astudio cyfrannedd mewn pensaernïaeth (**defnyddio gwybodaeth fathemategol**)<br>• mesur yn gywir, e.e. creu mwgwd i ffitio wyneb plentyn (**defnyddio gwybodaeth fathemategol**)<br>• gweithio mewn tri dimensiwn, e.e. dylunio blwch i ddal swfenîr (byddai hyn yn cynnwys dylunio rhwyd dau ddimensiwn a fyddai'n ffurfio blwch tri dimensiwn) (**defnyddio gwybodaeth fathemategol**)<br>• gwneud modelau i raddfa, e.e. model i raddfa o'r set ar gyfer cynhyrchiad diwedd tymor yr ysgol (**cyfrifo**)<br>• prisio prosiect celf, e.e. cyfrifo cost defnyddiau i greu murlun ar gyfer cyntedd yr ysgol (**cyfrifo**)<br>• creu darn o waith haniaethol gan ddefnyddio siapiau mathemategol sylfaenol, e.e. cylchoedd, sgwariau a thrionglau (**dehongli a chyflwyno casgliadau**)<br>• cyflwyno data ar ffurf weledol, e.e. defnyddio ffeithiau a ffigurau o holiadur a'u trosi i fformat gweledol (**dehongli a chyflwyno casgliadau**). |

## Celf a dylunio a dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

### Y Cwricwlwm Cymreig

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.




*Ffig. 16 – Dyluniad yn defnyddio symbolau Cymreig*




*Ffig. 17 – Llun yn dwyn y teitl 'Y Te Cymreig'*

Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn datblygu mewn modd uniongyrchol ddealltwriaeth ystyrlon o'r amgylchedd, y diwylliant a'r iaith sydd o'u cwmpas. Byddan nhw'n cael mynediad i waith celf a dylunio hanesyddol a chyfoes o Gymru a fydd yn cyfoethogi'u gweithgareddau creadigol. Byddan nhw'n meithrin ymwybyddiaeth o'r modd y gall celf a dylunio wella'r amgylchedd a'r modd y gallan nhw fel unigolion gyfrannu at hynny.

Dylid intigreiddio y Cwricwlwm Cymreig mewn dysgu ac addysgu ym maes celf a dylunio. Gall celf a dylunio ddarparu cyd-destun effeithiol ar gyfer cyflwyno agweddau ar y Cwricwlwm Cymreig. Dylech chi roi cyfleoedd i ddysgwyr astudio eu cynefin trwy dynnu lluniau o arsylwadau, profiadau a'u dychymyg. Gall y diwylliant a'r iaith fod yn ffynhonnell gyfoethog o ysbrydoliaeth sy'n darparu cyfleoedd dwyieithog ar gyfer dylunio graffeg. Dylid hefyd annog dysgwyr i ddefnyddio artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o Gymru fel adnoddau i gyfrannu at eu gwaith eu hunain.



Er enghraifft, ym mhroffil Siân (Cyfnod Allweddol 2) datblygwyd ei lluniau o'u harsylwadau o'r dirwedd ond maen nhw hefyd yn dangos dylanwad profiad a dychymyg. Mae un o'i lluniau'n gyfuniad o liwiau a nodwyd ganddi hi yng ngwaith artist o Gymru a'r lliwiau a welodd wrth arsylwi'r amgylchedd.



Ym mhroffil Carys (Cyfnod Allweddol 3) ei chynefin yw ei man cychwyn ar gyfer datblygu delweddaeth y mae hi'n ei defnyddio i greu pot tri dimensiwn.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd i hybu'r Cwricwlwm Cymreig yn cynnwys:**

- defnyddio artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o Gymru fel ysbrydoliaeth (**diwylliannol**)
- defnyddio oriel gelf leol (**diwylliannol**)
- defnyddio artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o Gymru i ddeall cysyniad, e.e. i bwysleisio pwysigrwydd gwneud lluniau mewn proses ddylunio (**diwylliannol**)
- gweithio gydag artist preswyl (**diwylliannol/economaidd**)
- ymchwilio i'w cynefin, e.e. gwneud llun o'r olygfa trwy ffenestr yr ystafell gelf (**amgylcheddol**)
- ymateb i frîff dylunio lleol, e.e. murlun ar gyfer yr ysgol feithrin leol (**amgylcheddol**)
- defnyddio celf Geltaidd fel adnodd, e.e. dylunio blwch i ddal potel bersawr (**hanesyddol**)
- cyfeirio at grefftau Cymreig traddodiadol yng nghyd-destun cyfuno defnyddiau (**hanesyddol**)
- creu darlun ar gyfer cerdd sydd â chyd-destun Cymreig (**ieithyddol**)
- dylunio poster dwyieithog ar gyfer diwrnod agored yr ysgol (**ieithyddol**).

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.




*Ffig. 18 – Gwaith celf a gynhyrchwyd yn ystod gwersi ABCh*



*Ffig. 19 – Siaced wedi ei gwneud o ddefnyddiau a ailgylchwyd*

Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn mynegi eu syniadau a'u teimladau am faterion personol, cymdeithasol, amgylcheddol, moesol ac ysbrydol trwy gyfrwng eu gweithgareddau creadigol. Trwy weithgareddau celf a dylunio byddan nhw'n dod yn ymwybodol o ddiwylliannau eraill a ffyrdd eraill o fyw, ac yn datblygu'r cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang. Byddan nhw'n mwynhau'r gweithgareddau ac yn datblygu diddordebau sy'n eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes, gwaith a hamdden.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd i hybu addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys:**


- dylunio poster i hybu byw'n iach (**iechyd a lles emosiynol**)
- ymchwilio i sut y gall lliwiau gyfleu teimladau a defnyddio'r canlyniadau i ddylunio cynllun lliwiau ar gyfer man addoli (**datblygiad moesol ac ysbrydol**)
- edrych ar batrymau a gynhyrchir gan ddau wahanol ddiwylliant a dylunio patrwm sy'n adlewyrchu nodweddion y ddau ddiwylliant (**dinasyddiaeth fyd-eang**)
- gwneud creadur dychmygol o ddefnyddiau a ailgylchwyd sy'n addas ar gyfer animeiddio (**datblygiad cynaliadwy**).

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylai dysgwyr 11 i 19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.



*Ffig. 20 – Arlunydd preswyl wrth ei gwaith*



*Ffig. 21 – Arlunydd graffeg wrth ei gwaith*

Mewn celf a dylunio, bydd y dysgwyr yn datblygu eu hymwybyddiaeth o yrfaoedd a'r byd gwaith trwy eu dealltwriaeth o'r dulliau a ddefnyddir gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr wrth ymarfer eu crefft.

Gellir trosglwyddo llawer o'r sgiliau a'r priodoleddau a ddatblygir trwy gelf a dylunio, yn unigol ac mewn grwpiau, i'r byd gwaith a hamdden, a gallan nhw gynnig llwybrau i'r diwydiannau creadigol a diwylliannol sy'n o hyd yn ehangu.

**Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gallu cynnig cyfleoedd i hybu gyrfaoedd a'r byd gwaith yn cynnwys:**

- gweithio mewn grŵp mewn ymateb i frîff gan gleient a dod i gytundeb o ran barn ynglŷn â materion dylunio, y broses weithio a chyfrifoldebau unigol
- gweithio ar brosiect gydag artistiaid preswyl gan gael profiad uniongyrchol o'u dulliau gweithio.

# *Adran* 2

## Disgwyliadau a dilyniant mewn celf a dylunio

Gellir olrhain llinellau dilyniant eang o ran cyrhaeddiad dysgwr ar gyfer pob un o'r sgiliau Deall, Ymchwilio a Gwneud yn y disgrifiadau lefel o Lefel 1 i Berfformiad Eithriadol.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylech chi roi cyfleoedd i ddysgwyr adeiladu ar a datblygu'r sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael yn y Cyfnod Sylfaen a datblygu eu sgiliau er mwyn sicrhau dilyniant i 14–19.

Dylech chi ystyried Deall, Ymchwilio a Gwneud fel gweithgareddau integredig. Yn y tablau canlynol, mae'r tair sgìl wedi'u gwahanu er mwyn eich helpu i nodi dilyniant yn y disgrifiadau lefel.

| **Disgwyliadau a dilyniant mewn Deall** | |
|---|---|
| **Lefel 2** | Bydd y disgyblion yn adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng eu gwaith ymarferol eu hunain a gwaith gan eraill; byddant yn ymateb i'r rhain trwy gyfrwng dulliau syml o gyfathrebu a byddant yn gallu disgrifio eu teimlad a'u barn amdanynt. |
| **Lefel 3** | Bydd y disgyblion yn disgrifio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill, a byddant yn dechrau dod yn ymwybodol o ddulliau a phwrpasau gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr ac yn dechrau ymateb yn ddychmygus iddynt. |
| **Lefel 4** | Bydd y disgyblion yn cymharu eu gwaith eu hunain â gwaith gan eraill o wahanol ddiwylliannau. Byddant yn cyfleu eu syniadau a'u teimladau'n ddychmygus, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r dulliau a ddefnyddir gan eraill a dangos eu bod yn deall gwahanol bwrpasau eu gwaith. |
| **Lefel 5** | Bydd y disgyblion yn cymharu'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yn eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill, gan gyfleu eu syniadau a'u teimladau'n ddychmygus, a chan ddangos yn glir eu bod yn deall y dulliau a'r pwrpasau a ddefnyddir gan eraill o wahanol ddiwylliannau. |
| **Lefel 6** | Bydd y disgyblion yn archwilio ac yn dangos eu dealltwriaeth wrth gymharu'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yn eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill. Byddant yn ymateb yn ymarferol ac yn ddychmygus i'r modd y bydd syniadau a theimladau'n cael eu cyfleu mewn gwahanol ddiwylliannau a chyd-destunau. |
| **Lefel 7** | Bydd y disgyblion yn gwneud cymariaethau cytbwys rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith gan eraill gan ddangos dealltwriaeth glir o'r amrywiaeth o ddulliau ac ymagweddau a ddefnyddir. Byddant yn medru dyfalu a chyfleu sut y gellir dehongli syniadau a theimladau mewn ffyrdd gwahanol, a byddant yn medru ymateb yn ymarferol ac yn ddychmygus i ddelweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau. |

| Disgwyliadau a dilyniant mewn Ymchwilio | |
|---|---|
| **Lefel 2** | Bydd y disgyblion yn cofnodi eu delweddau a'u syniadau ar sail gwaith arsylwi, profiad, y cof a'r dychymyg gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau y byddant wedi eu casglu a'u trefnu. |
| **Lefel 3** | Bydd y disgyblion yn dethol ac yn cofnodi eu syniadau a'u teimladau trwy dynnu lluniau a thrwy ddulliau eraill ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg gan ddewis o blith amrywiaeth o adnoddau y byddant wedi eu casglu a'u trefnu yn sail ar gyfer eu gwaith eu hunain. |
| **Lefel 4** | Bydd y disgyblion yn dethol ac yn cofnodi delweddau a syniadau ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg, a byddant yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a dulliau i gefnogi datblygiad eu gwaith. Byddant yn paratoi ac yn datblygu syniad neu thema ar gyfer eu gwaith trwy gasglu a threfnu adnoddau gweledol ac adnoddau eraill. |
| **Lefel 5** | Bydd y disgyblion yn tynnu lluniau ac yn defnyddio dulliau eraill yn ddethol i archwilio, dehongli a chofnodi eu syniadau a'u teimladau ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg. Byddant yn trefnu eu gwaith gan gasglu a defnyddio deunyddiau cyfeirio i ddatblygu syniad neu thema. |
| **Lefel 6** | Bydd y disgyblion yn tynnu lluniau ac yn defnyddio dulliau eraill yn ddethol i archwilio, dehongli a chofnodi eu syniadau, eu teimladau a'u canfyddiadau ar sail gwaith arsylwi, profiad a'r dychymyg. Byddant yn dangos eu gallu i drefnu eu gwaith a chasglu a defnyddio deunyddiau cyfeirio i ddatblygu syniad neu thema. |
| **Lefel 7** | Bydd y disgyblion yn gallu archwilio, dethol, cofnodi a chyfleu arsylwadau, syniadau, canfyddiadau a theimladau o amrywiaeth o ffynonellau, a byddant yn trefnu deunyddiau symbylu a deunyddiau cyfeirio wrth gynllunio a datblygu eu hymchwiliadau. |

| Disgwyliadau a dilyniant mewn Gwneud | |
|---|---|
| **Lefel 2** | Bydd y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau ac offer i wneud delweddau ac arteffactau, a byddant yn archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd yn ymarferol ac yn ddychmygus gan wneud newidiadau i'w gwaith pan deimlant fod eu hangen. |
| **Lefel 3** | Bydd y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, offer a thechnegau i gael gwahanol deilliannau, a byddant yn arbrofi â nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd gan wneud newidiadau addas i'r gwaith pan welant fod angen gwneud hynny. |
| **Lefel 4** | Bydd y disgyblion yn medru rheoli ystod o ddefnyddiau, offer a thechnegau i gael amrywiaeth o ddeilliannau. Byddant yn cymhwyso eu dealltwriaeth o nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd, a byddant yn adolygu ac yn newid eu gwaith pan welant fod angen gwneud hynny. |
| **Lefel 5** | Bydd y disgyblion yn arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus ag amrywiaeth o ddulliau, defnyddiau, offer a thechnegau gan gymhwyso gwybodaeth eang am nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd. Byddant yn adolygu ac yn newid eu gwaith er mwyn cyflawni'u bwriadau. |
| **Lefel 6** | Bydd y disgyblion yn arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus, byddant yn dangos hyder cynyddol wrth ddefnyddio defnyddiau, offer a thechnegau i weithredu syniadau, a byddant yn archwilio nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd gan adolygu a newid eu gwaith i wireddu'u bwriadau. |
| **Lefel 7** | Bydd y disgyblion yn arbrofi'n hyderus ag ystod eang o gyfryngau, offer a thechnegau i wireddu amrywiol fwriadau, a byddant yn arbrofi ag amrywiaeth o ddulliau a ddatblygwyd ganddynt hwy eu hunain a chan eraill, gan ddangos eu bod yn deall iaith weledol, cyffyrddol a synhwyraidd celf, crefft a dylunio. Byddant yn dangos eu gallu i adolygu prosesau a deilliannau mewn modd beirniadol ac adeiladol. |

# Adran 3

## Defnyddio’r disgrifiadau lefel yng Nghyfnod Allweddol 2

Nid yw'n ofynnol llunio barn diwedd cyfnod allweddol mewn celf a dylunio yng Nghyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, bydd gwybod am nodweddion y disgrifiadau lefel yn eich helpu i adnabod cryfderau'r dysgwyr, yn ogystal â'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn eich helpu i gynllunio ar gyfer dilyniant.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn tynnu sylw at briodweddau arbennig sy'n perthyn i'r gwaith, ac mae'r sylwadau'n cysylltu â nodweddion y disgrifiadau lefel. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i adnabod cryfderau'r dysgwyr a'r meysydd y mae angen eu datblygu, a chynllunio ar gyfer dilyniant.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

## Bryn | Nodweddion o Lefelau 3 a 4

Mae Bryn yn ddysgwr 10 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Bryn nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Bryn ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Bryn yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 3 a 4, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

### Uned o waith | Tirwedd

Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion astudio lliw a gwead yn y dirwedd a rhoddwyd strwythur ymchwiliol iddyn nhw. Cyflwynwyd iddyn nhw hefyd gwaith gwahanol artistiaid tirwedd.




*Ffig. 22*




Ffig. 23



Ffig. 24



Ffig. 25



*Ffig. 26*

Mae Bryn yn astudio'r dechneg o ddefnyddio llinellau cryf i wahanu ardaloedd o liw a ddefnyddir gan artistiaid eraill ac mae e'n *dechrau dod yn ymwybodol o'u dull* (nodwedd o Lefel 3) yn ei waith ei hun. Mae e'n *cymharu ei waith ei hun â gwaith gan eraill* (nodwedd o Lefel 4) ac, yn ôl ei athrawes, mae e'n cyfleu ei ddealltwriaeth ar lafar yn ogystal ag yn weledol (ffig. 25).

Mae e'n dangos tystiolaeth o ymchwilio i wead a lliw ac yn arbrofi â'r elfennau hyn yn haniaethol. Mae ei ymchwiliadau ei hun yn darparu *amrywiaeth o adnoddau* y mae e wedi'u creu a'u *trefnu yn sail ar gyfer ei waith ei hun* (nodwedd o Lefel 3) (ffig. 23).

Mae e'n dehongli ei waith gwneud gydag agweddau ar ddeall ac ymchwilio (ffig. 23) ac mae e'n *defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, offer a thechnegau i gael gwahanol deilliannau* (nodwedd o Lefel 3). Mae ei dirwedd terfynol (ffig. 26) yn dangos dylanwad ei ymchwiliadau ac, yn ôl ei athrawes, wnaeth *newidiadau addas i'w waith* (nodwedd o Lefel 3) wrth iddo fe ddatblygu.

## Uned o waith | Planhigion

Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion wneud lluniau arsylwadol o blanhigion a gofynnwyd iddyn nhw ddatblygu'r rhain i greu patrymau ailadroddus.



*Ffig. 27*

Yn ôl athrawes Bryn, mae e wedi dewis ei gynllun lliwiau trwy edrych ar ddarluniau o baentiadau Argraffiadwyr mewn llyfrau ac ar ôl ymweld ag oriel. Mae e'n *cymharu ei waith ei hun â gwaith gan eraill* (nodwedd o Lefel 4).

Mae e'n *dethol ac yn cofnodi* (nodwedd o Lefel 3) nifer o blanhigion trwy wneud lluniau wrth arsylwi sy'n darparu iddo fe adnoddau y mae e wedi eu *casglu a'u trefnu yn sail ar gyfer ei waith ei hun* (nodwedd o Lefel 3).



*Ffig. 28*



*Ffig. 29*

Mae e'n *defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau* i wneud lluniau, gan gynnwys pensiliau, pastelau a pheintio ar sidan, i *gael gwahanol deilliannau* (nodwedd o Lefel 3) ac mae e'n cynnwys nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd ar wneud patrymau yn ei arbrofion. Mae e'n trosi ei luniau cychwynnol yn ddelwedd argraffadwy sy'n caniatáu iddo fe *wneud newidiadau addas* i'w batrymau (nodwedd o Lefel 3).



*Ffig. 30*



*Ffig. 31*

## Crynodeb

Mae proffil Bryn yn dangos rhai nodweddion o Lefel 3 a Lefel 4 ond nodweddion Lefel 3 yn bennaf.

Gellid datblygu ei waith ymhellach trwy wneud mwy o *gymariaethau rhwng ei waith ei hun a gwaith gan eraill o wahanol ddiwylliannau* (nodwedd o Lefel 4) a byddai ymchwilio i wahanol fathau o batrymau'n darparu cyd-destun effeithiol ar gyfer cyflawni hyn. Gallai hefyd ddatblygu ei allu ymhellach i *gymhwyso ei ddealltwriaeth o nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd* (nodwedd o Lefel 4) yn ei ganlyniadau terfynol.

# Mark | Nodweddion o Lefelau 4 a 5


Mae Mark yn ddysgwr 10 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Mark nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Mark ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Mark yn dangos rhai nodweddion o Lefelau 4 a 5, ond mae'n dangos nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

## Uned o waith | Patrymau mewn tirwedd

Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion edrych ar waith artistiaid eraill ac i ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yna gofynnwyd iddyn nhw edrych ar liwiau a phatrymau yn y dirwedd ac i gyfleu hyn gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a thechnegau.



*Ffig. 32*




*Ffig. 33*



Ffig. 34



Ffig. 35



Ffig. 36



Ffig. 37

Mae Mark yn ymateb i ystod o waith celf sy'n amrywio o ran arddull o waith cynrychioliadol, lled-haniaethol i haniaethol ac mae e'n *dangos ei fod yn deall gwahanol bwrpasau ei waith* (nodwedd o Lefel 4 ). Mae e'n cyfleu ei ddealltwriaeth o'r gwaith ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy ei ganlyniadau ymarferol.

Mae e'n *cofnodi'r* dirwedd *o arsylwi*, *profiad a'r dychymyg* (nodwedd o Lefel 4) ac mae ei ymchwiliadau'n rhan annatod o'i waith gwneud.


Mae e'n dangos ei fod yn *medru rheoli ystod o ddefnyddiau, offer a thechnegau i gael amrywiaeth o ddeilliannau* (nodwedd o Lefel 4) sy'n cynnwys technegau peintio, TGCh, pastelau a phapur lliw wedi'i wehyddu.

## Uned o waith | Prosiect amlgyfrwng

Ffig. 38




Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion arbrofi ag amrywiaeth o wahanol gyfryngau ac i gynhyrchu gwaith amlgyfrwng. Cyflwynwyd i waith artist amlgyfrwng.







Ffig. 41

Ffig. 39






Ffig. 42

Ffig. 40


*Ffig. 43*

Mae Mark yn *cymharu ei waith ei hun* (nodwedd o Lefel 4) â gwaith artist amlgyfrwng ac mae e'n *dangos ymwybyddiaeth o'i ddulliau* (nodwedd o Lefel 4).

Mae e'n ymchwilio i nodweddion gwahanol gyfryngau a'r ffordd maen nhw'n effeithio ar ei gilydd pan fyddan nhw'n cael eu cyfuno (ffig. 42).

Mae e'n defnyddio ystod o ddefnyddiau ar gyfer ei waith gan gynnwys inciau, pastelau, PVA, tywod a phapur sidan. Mae e'n arbrofi â ffyrdd o gyfuno siapiau unigol i greu un ddelwedd gyfan (ffig. 40). Wrth wneud y canlyniad terfynol, mae e'n defnyddio *ei ddealltwriaeth o nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd* (nodwedd o Lefel 4). Roedd hyn yn cynnwys *adolygu ac yn newid ei waith er mwyn cyflawni'i fwriadau* (nodwedd o Lefel 5).

## Crynodeb

Mae proffil Mark yn dangos rhai nodweddion o Lefel 4 a Lefel 5 ond nodweddion Lefel 4 yn bennaf.

# Siân | Nodweddion o Lefel 5

Mae Siân yn ddysgwr 10 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Siân nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Siân ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae proffil Siân yn dangos nodweddion Lefel 5.

## Uned o waith | Pethau byw

Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion astudio gwaith Argraffiadwyr a'u hannog i roi sylw gofalus i'w dulliau o gynrychioli blodau. Roedd rhaid i'w hymchwiliadau gyfrannu at eu gwaith eu hunain.




*Ffig. 44*



*Ffig. 45*



Ffig. 46





Ffig. 47




Ffig. 48



Ffig. 49



Ffig. 50



Ffig. 51

Mae Siân yn *cymharu'r dulliau a'r technegau* (nodwedd o Lefel 5) peintio Argraffiadol a pheintio Japaneaidd ac yn cyfuno ddulliau a thechnegau y ddau ddylanwad i gyfrannu at ei gwaith ei hun. Mae hi'n dangos *yn glir ei bod hi'n deall y dulliau a'r pwrpasau a ddefnyddir gan eraill o wahanol ddiwylliannau* (nodwedd o Lefel 5). Mae hi'n cyfuno'r glesni sy'n gysylltiedig ag Argraffiadaeth â nodweddion mwy llinellog y blodyn dwyreiniol ac mae hi'n cyfleu ei dealltwriaeth ar lafar yn ogystal â thrwy ei gwaith ymarferol.

Mae hi'n gwneud lluniau pensil llinellog sensitif o flodau wrth arsylwi ac mae hi'n *defnyddio dulliau eraill yn ddethol i archwilio* (nodwedd o Lefel 5). Mae hi'n defnyddio ei hymchwiliadau ei hun i'r gwahanol effeithiau y gellir eu cynhyrchu gyda pheintio sidan i ddatblygu ei thema (ffig. 47).

Mae hi'n *arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus ag amrywiaeth o ddulliau, defnyddiau, offer a thechnegau* (nodwedd o Lefel 5) sy'n cynnwys lluniau pensil, gwaith pastel, peintio sidan, TGCh a gwehyddu. Mae ganddi hi *wybodaeth eang am nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd* (nodwedd o Lefel 5). Mae'r llinellau mynegiannol y mae hi'n eu defnyddio yn ei lluniau pastel o flodau yn dangos ei gallu i *adolygu ac yn newid ei gwaith* (nodwedd o Lefel 5) (ffig. 46).

## Uned o waith | Gwneud llun o'r dirwedd


Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion fynd allan i wneud lluniau o'r dirwedd a gwneud cofnod ohono fe. Yna gofynnwyd iddyn nhw ddatblygu delwedd yn seiliedig ar eu lluniau yn y cyfrwng o'u dewis.



*Ffig. 52*



*Ffig. 53*



*Ffig. 54*



*Ffig. 55*



*Ffig. 56*

Mae Siân yn *cymharu ei gwaith ei hun* (nodwedd o Lefel 5) a gwaith yr artist tirwedd a ddewiswyd ganddi hi trwy ymchwilio i'r lliwiau a ddefnyddiwyd gan yr artist. Mae un o'i lluniau'n gyfuniad o liwiau y mae hi'n sylwi arnyn nhw yng ngwaith yr artist a'r lliwiau y mae hi'n eu gweld wrth arsylwi'r dirwedd (ffig. 54).

Mae ei lluniau wedi eu llywio gan ei *gwaith arsylwi* o'r tirwedd yn ogystal â gan *brofiad a dychymyg* (nodweddion o Lefel 5). Mae ei dehongliadau o'r dirwedd yn darparu *deunyddiau cyfeirio i ddatblygu ei syniad* (nodwedd o Lefel 5).

Mae hi'n dewis gwlân fel cyfrwng ar gyfer ei chanlyniad terfynol ac mae hi'n trosi ei lluniau i gyfrwng arall mewn modd llwyddiannus a llawn dychymyg (ffig. 53). Dylanwadir ar y cyfrwng a ddewisir ganddi hi gan wybodaeth a gafwyd am nodweddion gwlân o'i phrosiect blaenorol. Mae'r gyfres o luniau o'r un llechwedd yn dangos ei gallu *i adolygu ac i newid ei gwaith er mwyn cyflawni'i bwriadau* (nodwedd o Lefel 5).

## Crynodeb

Mae proffil Siân yn dangos nodweddion o Lefel 5 yn gyson.

# *Adran* 4

## Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau o safbwynt disgrifio perfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw'n ofynnol i'ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

# Aled | Lefel 5

Mae Aled yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Aled nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Aled ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.


Mae athrawes Aled o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn celf a dylunio.

## Uned o waith | Deall swrrealaeth

Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion greu casgliad o waith a oedd yn dangos eu dealltwriaeth o swrrealaeth. Gofynnwyd iddyn nhw seilio eu gwaith ar drefniad bywyd llonydd.





*Ffig. 57*




*Ffig. 58*



*Ffig. 59*




*Ffig. 60*



*Ffig. 61*



*Ffig. 62*



*Ffig. 63*


Mae Aled yn dangos ei ddealltwriaeth o swrrealaeth trwy gyfathrebu gweledol ac ysgrifenedig. Mae e'n casglu delweddau digysylltiad o gylchgronau ac yn eu cyfuno mewn ffordd swrrealaidd. Mae e hefyd yn casglu gwybodaeth o lyfrau a'r rhyngrwyd am swrrealaeth ac mae e'n dewis darluniau priodol (ffig. 58).

Mae e'n gwneud lluniau o wrthrychau bywyd llonydd yn seiliedig ar arsylwi ac mae e'n datblygu ac yn trawsnewid y delweddau hyn mewn ffordd llawn dychymyg i gyfleu ystyron newydd, e.e. mae'r fâs (ffig. 63) yn dod yn fawreddog trwy gyflwyno'r dirwedd a'r awyr fel cefndir.

Mae e'n defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau wrth gynhyrchu'r casgliad o waith, sy'n amrywio o ludwaith a lluniau pensil i waith gyda phastelau. Mae e'n darganfod bod gludwaith yn arbennig o addas ar gyfer cynhyrchu delweddau swrrealaidd.

## Uned o waith | Prosesau a thechnegau

Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion weithio gyda gwahanol brosesau a thechnegau. Gofynnwyd iddyn nhw ddewis thema ac ymchwilio i ddelweddau priodol fel man cychwyn ar gyfer eu gwaith.



*Ffig. 64*



*Ffig. 66*





*Ffig. 65*




*Ffig. 68*



*Ffig. 69*



*Ffig. 70*



*Ffig. 71*

Yn y casgliad penodol hwn o waith, ychydig iawn o dystiolaeth a ddangosir gan Aled o wneud cymariaethau â'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir gan bobl eraill yn ei waith ei hun ond mae ei broffil cyffredinol yn cynnwys gwaith sy'n dangos dylanwad artistiaid eraill.

Mae e'n gwneud lluniau arsylwadol o bysgod ac mae e'n arbrofi â thechnegau sy'n cynhyrchu gweadedd (ffig. 64). Mae ei luniau'n dod yn fwy dychmygus pan fyddan nhw'n cael eu datblygu'n brosesau a thechnegau eraill, e.e. inc a chreon, batic, print mono, gludwaith a cherfwedd gyda cherdyn. Mae ei luniau o bysgod (ffig. 64) yn dod yn ddeunyddiau cyfeirio ar gyfer datblygu ei thema. Rhoddodd ei ymchwiliad trylwyr o bysgod sylwedd i'r delweddau mae e'n eu cynhyrchu gan ddefnyddio'r gwahanol brosesau a thechnegau.

Mae ei waith gwneud ac ymchwilio yn gysylltiedig â'i gilydd ac mae'r gwaith gwneud yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu prosesau a thechnegau o fewn thema. Nid oes ganddo fe unrhyw fwriad o gynhyrchu canlyniad terfynol.

## Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn gyffredinol, mae perfformiad Aled yn gyson. O ran ei ddealltwriaeth o waith artistiaid eraill, mae e'n *cymharu'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yn ei waith ei hun* a rhai artistiaid swrrealaidd (nodwedd o Lefel 5). Mae e'n *dangos yn glir ei fod yn deall y dulliau a'r pwrpasau* (nodwedd o Lefel 5) o gyfosod gwrthrychau digysylltiad mewn ffordd ddychmygus (ffig. 58).

Mae e'n *tynnu lluniau* mewn pastelau, *yn defnyddio dulliau eraill yn ddethol*, e.e. gludwaith (ffig. 66), ac mae ei gofnodion o wrthrychau bywyd llonydd yn seiliedig ar *arsylwi a dychymyg* (nodweddion o Lefel 5) (ffig. 61).

Ar draws yr holl weithgareddau mae e'n *arbrofi'n ymarferol ac yn ddychmygus ag amrywiaeth o ddulliau, defnyddiau, offer a thechnegau, gan gymhwyso gwybodaeth eang am nodweddion gweledol, cyffyrddol a synhwyraidd* (nodwedd o Lefel 5). Mae e'n *casglu a defnyddio deunyddiau cyfeirio i ddatblygu syniad neu thema* (nodwedd o Lefel 5).

Ym mhob gweithgaredd mae Aled yn dangos ei sgiliau yn y tair sgìl, sef Deall, Ymchwilio a Gwneud, mewn ffordd integredig, e.e. mae e'n dangos ei ddealltwriaeth o gelf swrrealaidd trwy ganlyniad ymarferol (ffig. 63) ac mae e'n datblygu ei ymchwiliadau i dechnegau a phrosesau trwy wneud yn y prosiect tanddwr.

# Carys | Lefel 6

Mae Carys yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Carys nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Carys ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Carys o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn celf a dylunio.

## Uned o waith | Dylunio esgid yn seiliedig ar thema

Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion ddylunio esgid yn seiliedig ar thema. Fel man cychwyn, gofynnwyd iddyn nhw ymchwilio i artistiaid pop a'r ffordd roedden nhw'n defnyddio ac yn trawsnewid gwrthrychau bob dydd yn eu gwaith.

*Ffig. 72*






*Ffig. 74*



*Ffig. 73*




*Ffig. 75*







*Ffig. 76*

Ffig. 77





Ffig. 78



Ffig. 79

Mae Carys yn edrych ar waith Andy Warhol ac yn casglu deunyddiau cyfeirio a rhai o'i ddelweddau i gyfrannu at ei gwaith ei hun (ffig. 76).


Mae hi'n cynhyrchu lluniau pensil o ansawdd da yn seiliedig ar arsylwi, ac yn defnyddio cyfuniad o luniau ac anodiadau'n effeithiol i ddatblygu syniadau a sgiliau meddwl (ffig. 74). Mae hi'n ymchwilio i wahanol fathau o esgidiau sy'n darparu adnoddau gwerthfawr iddi hi ar gyfer datblygu ei syniadau (ffig. 76).


Mae hi'n defnyddio amrywiaeth o brosesau a thechnegau yn ei chasgliad o waith, ac mae'r esgid dri dimensiwn yn ehangu ei gwybodaeth am ddefnyddiau.

## Uned o waith | Cynwysyddion tri dimensiwn

Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion greu cynhwysydd tri dimensiwn. Gofynnwyd iddyn nhw ystyried gwaith artistiaid mynegiadol wrth ddatblygu eu dyluniad.

*Ffig. 80*







*Ffig. 81*




*Ffig. 82*





*Ffig. 83*




*Ffig. 84*



*Ffig. 85*



*Ffig. 86*



Ffig. 87



Ffig. 88

Mae Carys yn cymharu gwaith a gwahanol arddulliau tri artist mynegiadol. Mae hi'n edrych yn fanwl ar rannau bychain o'u paentiadau, gan ganolbwyntio ar eu dulliau yn hytrach na'r cynnwys. Mae hi'n dangos ei dealltwriaeth o waith pobl eraill trwy gyfathrebu gweledol (ffig. 82).

Ei man cychwyn yw gwneud lluniau o'i chynefin o sawl gwahanol olygfa a dewis un i'w ddatblygu ymhellach (ffig. 80). Mae hi'n ymchwilio i natur fynegiannol iaith weledol, gyffyrddol a synhwyraidd ar daflenni gwaith wedi'u paratoi (ffig. 83).

Mae hi'n cynhyrchu cynhwysydd ac yn rhoi delweddau arno sy'n seiliedig ar luniau a ddatblygwyd yn gynharach yn y gweithgaredd. Mae'r ddelwedd mae hi'n ei chynhyrchu gan ddefnyddio TGCh yn cyfrannu at ei gwybodaeth am ddefnyddiau a thechnegau (ffig. 86).

## Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Carys wedi dangos ei gallu i *gymharu’r dulliau a’r technegau a ddefnyddir yn ei gwaith ei hun* (nodwedd o Lefel 5) â rhai artistiaid pop ac arlunwyr mynegiadol.

Mae hi’n gwneud *lluniau o arsylwi* ar draws pob gweithgaredd *ac yn defnyddio dulliau eraill yn ddethol* (nodweddion o Lefel 6), sy’n amrywio o ludwaith i bensiliau lliw.

Mae’r canlyniadau tri dimensiwn (ffig. 72, ffig. 88) yn *dangos hyder cynyddol wrth ddefnyddio defnyddiau, offer a thechnegau* (nodwedd o Lefel 6). Trwy ei lluniau mae hi’n dangos ei gallu i ddatblygu syniadau a thema.

Ar draws pob gweithgaredd mae Carys yn dangos ei sgiliau yn y tair sgìl, sef Deall, Ymchwilio a Gwneud, mewn modd integredig, e.e. mae hi’n dangos ei dealltwriaeth o arddulliau artistiaid mynegiadol trwy ganlyniadau ymarferol ac yn ymchwilio i natur delweddau mynegiadol trwy gyfathrebu gweledol ar daflenni gwaith wedi’u paratoi.

Gallai ei gwaith ddatblygu ymhellach trwy roi mwy o sylw i adolygu ac addasu’r gwaith wrth iddo fynd ymlaen.

# June | Lefel 7

Mae June yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad June nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith June ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.


Mae athrawes June o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn celf a dylunio.

## Uned o waith | Hunanbortread

Rhoddwyd cyfleoedd i'r disgyblion gynhyrchu hunanbortreadau yn seiliedig ar waith sawl artist.




*Ffig. 89*





Ffig. 90

Mae June yn edrych ar waith artistiaid eraill fel Picasso, Munch a Calder, ac yn cyfleu ei dealltwriaeth trwy ddulliau cyfathrebu amrywiol. Mae ei gwaith ysgrifenedig (ffig. 92) yn ymateb personol iawn i waith Picasso. Mae ei hunanbortread sy'n cyfuno dau safbwynt yn atgyfnerthu ei dealltwriaeth (ffig. 93). Mae ei herthygl papur newydd yn enghraifft dda o sut y gellir defnyddio TGCh i ddatblygu dealltwriaeth ac ymchwilio.




Ffig. 91




Ffig. 92




Mae ei hunanbortread arsylwadol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r llun llinell a gwifren sy'n seiliedig ar waith Calder.

*Ffig. 93*



*Ffig. 94*



*Ffig. 95*

*Ffig. 96*



*Ffig. 97*



Yn y gwaith sy'n dangos dylanwad Munch, mae hi'n defnyddio TGCh fel rhan o ganlyniad amlgyfrwng wedi'i chyfuno â defnyddiau a phrosesau eraill. Mae hi'n dewis TGCh am ei bod yn gyfrwng priodol (ffig. 97).

## Uned o waith | Coed

Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion astudio coed a gofynnwyd iddyn nhw gynhyrchu canlyniad terfynol yn seiliedig ar eu hymchwiliadau.




*Ffig. 98*

Ffig. 99




Mae June yn dechrau ei phrosiect trwy edrych ar artistiaid amrywiol gan gynnwys Mondrian. Mae hi'n cyfleu ei dealltwriaeth o sut y symleiddiodd Mondrian siapiau coed trwy gyfathrebu ysgrifenedig a gweledol. Mae hi'n defnyddio llyfr braslunio i ddatblygu ei dealltwriaeth a'i hymchwiliadau (ffig. 98).




Ffig. 100



Ffig. 101

Mae ei hymchwiliadau'n cynnwys defnyddio cyfuniad o wneud lluniau o arsylwi ac ysgogiadau ffotograffig a dynnwyd ac a drefnwyd ganddi hi ei hun.

Mae hi'n cyfuno ei hymchwiliadau a'i gwaith gwneud, ac mae ei llyfr braslunio'n darparu cyd-destun effeithiol ar gyfer datblygu'r sgiliau hyn (ffig.101, ffig. 102).



Ffig. 102



Ffig. 103



Ffig. 104

Mae hi'n ystyried y sgiliau Deall, Ymchwilio a Gwneud, fel gweithgareddau cysylltiedig ac mae hyn wedi arwain at waith trawiadol a bywiog iawn. Mae effeithiolrwydd y canlyniad gorffenedig o batrymau cangen mewn cerfwedd yn deillio o'r ymchwiliad trylwyr iawn a wnaed yn flaenorol (ffig. 104).

## Crynodeb a barn gyffredinol

Barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae June yn defnyddio amrywiaeth o artistiaid ym mhob gweithgaredd fel ffynonellau dylanwad ac mae hi'n dangos *dealltwriaeth glir o'r amrywiaeth o ddulliau ac ymagweddau a ddefnyddir* (nodwedd o Lefel 7). Mae hi'n dangos ei bod hi'n *medru ymateb yn ymarferol ac yn ddychmygus i ddelweddau o amrywiaeth o gyd-destunau* (nodwedd o Lefel 7).

Mae hi'n *gallu archwilio, dethol, cofnodi a chyfleu arsylwadau* ar ffurf ysgrifenedig a gweledol o *amrywiaeth o ffynonellau* (nodwedd o Lefel 7) ac mae hi'n dangos datblygiad clir yn ei hymchwiliadau (ffig. 101).

Mae hi'n *arbrofi'n hyderus ag ystod eang o gyfryngau* gwneud lluniau a pheintio (nodwedd o Lefel 7) sy'n cynnwys gwaith gyda phensiliau, peintio, TGCh a gwifrau llinellog a ddatblygwyd ganddi hi ei hun. Mae hi hefyd yn *adolygu ei deilliannau mewn modd beirniadol ac adeiladol* (nodwedd o Lefel 7) (ffig. 99).

Ym mhob gweithgaredd mae June yn dangos ei sgiliau yn y tair sgìl, sef Deall, Ymchwilio a Gwneud, mewn ffordd integredig, e.e. mae canlyniadau ymarferol ei hunanbortreadau yn dangos ei bod hi'n deall y cysyniad o giwbiaeth, a chyfnerthir ei sgiliau arsylwadol mewn cofnodi ac ymchwilio gan fwy o hyder wrth ddefnyddio defnyddiau a thechnegau.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Diolch yn arbennig i'r Grŵp Llywio, Gillian Evans, Elin Forsyth, Ian Hughes, Kathryn Richards, John Taylor, Catrin Watkins, Jennifer Woodroffe ac Anwen Williams a rhoddodd o'u hamser gwerthfawr i'n helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/warcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi cymorth a deunyddiau:

Ysgol Bro Myrddin, Sir Gâr
Ysgol Eglwysbach, Conwy
Ysgol Ffridd y Llyn, Gwynedd
Ysgol Gyfun Abertillery, Blaenau Gwent
Ysgol Gyfun St Teilo, Caerdydd
Ysgol Pantycelyn, Sir Gâr
Ysgol Penybryn, Gwynedd
Ysgol y Castell, Sir Gâr
Ysgol y Creuddyn, Conwy.